


Creu Coetir yn Nhy'n Mynydd, Porthaethwy

Cyflwyniad

Fe ddaeth Ty'n Mynydd yn eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ym mis Chwefror 2022 i'r pwrpas o greu coetir. Mae hyn yn rhan o raglen CNC i greu coetir newydd, i wneud iawn am goetir a gollwyd yn barhaol o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (YGLIC) i fodloni ymrwymadau polisi i gynnal ardal goetir yr ystad ac i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur.



Lleoliad y Safle



Site = Safle

Mae'r safle hanner milltir i'r gogledd-ddwyrain o Borthaethwy. Mae'r B5240 yn ffurfio ffin ddeheuol sy'n arwain at Benmynydd, ychydig filltiroedd i'r gogledd-ddwyrain. Coedwig Pentraeth yw'r coetir agosaf sy'n eiddo i CNC, sydd tua 5km i'r gogledd.

Cyd-destun y Safle

Mae'r safle wedi'i leoli ar Ffordd Penmynydd, tua hanner milltir o Borthaethwy a gyferbyn â chanolfan Pili Palas. Mae'r ffin goch ar y map isod yn dangos maint y safle.

Mae'r tir yn gorchuddio 10.93 hectar sy'n cynnwys chwe chae o dir amaethyddol. Mae hwn yn laswelltir wedi'i wella a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer pori a silwair. Amgylchynir y caeau gan weddillion cloddiau, gyda chwrs dŵr bychan ar y Ffin Ogleddol. Mae'r tir o amgylch hefyd yn amaethyddol, mae ardaloedd bach o goetir yn yr ardal gyfagos, wedi'u cysylltu gan rwydwaith o wrychoedd. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae canran y gorchudd coed yn yr ardal yn isel. Mae'r dirwedd yn donnog a chymharol wastad.

Bloc Pentraeth yw Ystad Goetir agosaf Llywodraeth Cymru, tua 5km i'r Gogledd o'r safle.

1. Rhwng pwynt un a dau ar y map mae cwrs dŵr bach yn llifo ar hyd ffin y safle i'r gogledd-ddwyrain cyn ymuno ag afon fechan i'r gogledd o'r safle.
2. Fel yr uchod.
3. Ardal fechan o laswelltir lled-naturiol (fel y dangosir ar fapiau cam un), yn dangos tystiolaeth o fwy o amrywiaeth yn y rhywogaethau na gweddill y safle, tir eithaf gwlyb.
4. Mae dwy linell bŵer foltedd uchel yn croesi'r safle, gan gyfarfod ym mhwynt 4.
5. Mae gwrychoedd aeddfed yn ffurfio ffiniau presennol y caeau.
6. Pant bychan sy'n wlyb ac yn debygol o ddal dŵr llonydd ar adegau o law trwm.
7. Mae'r ffin hon yn wal gerrig, gyda phentwr o rwbel/cerrig mawr lle mae'n cwrdd â ffin y ffordd yn y de.



Ecoleg a Bioamrywiaeth

Glaswelltir wedi'i wella yw'r safle i raddau helaeth gydag ardal fach o laswelltir wedi'i led-wella sy'n brin o rywogaethau. Mae ffiniau'r caeau yn wrychoedd â chloddiau pridd.

Nid oes unrhyw ddynodiadau ar y safle na chwaith yn agos ato.

Yn gyffredinol mae canran y gorchudd coetir ar Ynys Môn yn isel, tua 4%.

Mae Ynys Môn yn gadarnle pwysig i'r wiwer goch. Mae rhywogaethau coed fel coed llydanddail mawr sy'n hadu (er enghraifft cyll), a chonwydd fel pinwydd yn ffynhonnell fwyd dda i wiwerod coch. Mae cysylltiadau uwchben y ddaear hefyd yn bwysig er mwyn i wiwerod allu symud o gwmpas y dirwedd.



Tirwedd

Mae tirwedd canol Ynys Môn yn cael ei disgrifio yn y crynodeb byr hwn:

Mae'r ardal yn ffurfio craidd amaethyddol yr ynys, y rhan a enillodd iddi'r enw 'Môn Mam Cymru'. Er bod y dirwedd yn isel, mae'r ddaear sy'n cynnwys llinellau ffawt sy'n rhedeg o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain yn dylanwadu ar newidiadau mewn topograffeg. Mae yma hefyd ychydig o fryniau a chreigiau'n brigo'r wyneb. Yn ogystal, mae sawl ardal o dir ffen ac ardaloedd helaeth o ddrymlinoedd, yn enwedig felly yn y gogledd a'r gorllewin. Oni bai am y gwrychoedd, y cloddiau â'r perthi ac ambell i goedlan gysgodol ac ardaloedd o brysgwydd, mae gan yr ardal gymeriad agored, tonnog. Ardal sydd yn nannedd y gwynt. Dyma'r ardal leiaf coediog yng Nghymru ar dirwedd isel. Mae'r mewndir yn gyfoethog o ran archeoleg, yn ogystal â chwedlau a thraddodiadau. Mae elfennau cryf o'r cyfnod Canoloesol wedi goroesi, ar ffurf eglwysi anghysbell ac enwau lleoedd. Crëwyd yr olion amlycaf ar dirwedd yr ardal yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan adeiladwyd ffordd Thomas Telford o Lundain i Gaergybi, y rheilffordd o Gaer i Gaergybi, a'r ffermydd cwrt sylweddol hefyd a noddwyd gan yr ystadau. Mae llawer ohonyn nhw bellach yn mynd â'u pen iddyn nhw. Er ei bod yn ardal wledig yn gyffredinol, mae tref sirol Llangefni wedi ehangu gydag ystadau tai ac ystadau diwydiannol newydd yn ystod yr ugeinfed ganrif, sydd i'w gweld o'r ardal wledig sy'n ei amgylchynu. Nid yw'r ardal wledig hon wedi cael ei heffeithio gan weithgareddau twristiaeth a hamdden fel sy'n effeithio'r ardaloedd arfordirol cyfagos. Fodd bynnag, mae dwy gronfa ddŵr fawr wedi'u hadeiladu, ac yn fwy diweddar mae ffordd ddeuol newydd wedi agor ar draws yr ardal.

Mae'r ardal yn amaethyddol yn bennaf, gyda phatrymau'r caeau yn amlwg. Mae'r safle ar lethr raddol i'r de-orllewin ond nid yw'r safle cyfan yn rhy amlwg o fewn y dirwedd oherwydd y lleoliad isel a'r gwrychoedd.

Amgylchedd Hanesyddol

Mae nifer o nodweddion hanesyddol ar y safle a'r ardal gyfagos ac o fewn Ynys Môn, gan gynnwys safleoedd hynafol. Comisiynwyd a chynhaliwyd astudiaeth lawn o'r safle a'r ardal gyfagos gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.

Daeth yr ymchwili i'r casgliad bod y cynllun arfaethedig wedi'i leoli o fewn tirwedd amaethyddol leol, gyda gweithgarwch cynhanesyddol, Rhufeinig, canoloesol ac ôl-ganoloesol yn bresennol yn yr ardal ehangach. Yr unig nodwedd archaeolegol hysbys o fewn y cynllun arfaethedig yw safle maen hir nad yw'n bresennol bellach, tra bod pant, hen ffin cae a marciau aradr wedi'u nodi fel nodweddion posibl.

- Rhoddodd yr astudiaeth gyfres o argymhellion, gan gynnwys bod
- byffer 10m yn cael ei roi o amgylch y pant (a ddangosir fel y cylch melyn ar y llun isod)
 - waliau terfyn a nodweddion 'Clawdd' hefyd yn cael eu cadw fel rhan o'r cynllun plannu.

Mae copi o'r adroddiad llawn ar gael.



Pridd

Mae'r tir yn weddol agored gyda maetholion pridd 'canolig' a phridd sy'n 'llaith iawn'.

Mae arolwg pridd Cymru a Lloegr yn nodi'r canlynol ynghylch y priddoedd. Caiff hyn ei gadarnhau'n fras gan ymchwiliad ar y safle i'r priddoedd ac mae'n golygu bod y priddoedd yn addas ar gyfer amrywiaeth eang o rywogaethau coed.

Priddlun 6:

Priddoedd priddgleiog ychydig yn asidig, sy'n draenio'n rhwydd

Gwriad: Priddgleiog

Draenio: Yn draenio'n rhwydd

Ffrwythlondeb: Isel 

Cynefinoedd: Porfeydd niwtral ac asidig a choetiroedd collddail; cymunedau asid fel rhedyn ac eithin yn yr ucheldiroedd


Gorchudd tir: Tir âr a glaswelltir

Carbon: Isel


Yn draenio i: Dŵr daear ac afonydd lleol

Gwarchod dŵr: Halogiad dŵr daear â nitrad; siltio a maethynnau'n gorfaethu nentydd drwy erydiad pridd ar rai o'r priddoedd hyn

Addasrwydd ar gyfer cnydau: Yn addas ar gyfer amrywiaeth o gnydau wedi'u hau yn y gwanwyn a'r hydref; o dan laswellt mae'r priddoedd yn addas ar gyfer tymor pori hir. Mae draeniad rhwydd yn lleihau'r risg o ddifod i bridd gan anifeiliaid sy'n pori neu beiriannau ffwm. Prinder lleithder pridd sydd fwyaf tebygol o gyfyngu ar bwysau'r cnwd, yn enwedig lle mae'n garegol neu'n fas



Dŵr



Ychydig iawn o berygl o lifogydd sydd i'r safle neu'r ardal gyfagos.

Gallai cyflwyno coetir a chael gwared ar fewnbynnau amaethyddol ac aflonyddu ar y tir leihau rhai o'r risgiau i ansawdd dŵr a nodir gan y math o bridd.

Commented [E1]: Ffordd Penmynydd

Allwedd

Prif Afonydd

Perygl o Lifogydd o Afonydd

Uchel

Canolig

Isel

Perygl o Lifogydd o Ddŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr bach

Uchel


Canolig

Isel

Nodiadau – Haenau perygl o lifogydd

Warws (Warehouse)

Pobl



**Cyfoeth Naturiol Cymru**
Natural Resources Wales

Title: Nearby PROW

Date: 14 November 2022

Author: Miriam Jones-Walter

Scale @ A4: 1:12,500

Public Rights of Way

- Public Rights of Way

OS Open Rivers Watercourse

- Canal
- Inland River
- Lake
- Tidal River

Mae Pili Palas i'r de yn edrych dros y safle, a rhai tai preswyl a thai gwyliau i'r gogledd.

Mae yna boblogaeth leol gerllaw a allai ddefnyddio man gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Er mai dim ond hanner milltir y tu allan i Borthaethwy mae'r safle, mae mynediad uniongyrchol ar hyd yr B5420. Nid oes palmant, mae'r traffig yn symud yn gyflym ac mae'r gwelededd yn wael, sy'n golygu y gallai mynediad i Pili Palas a'r safle fod yn beryglus ar droed.

Nid oes unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus presennol yn croesi'r safle, mae sawl un yn agos at y safle sydd a'r potensial i ddarparu cysylltedd i'r safle.

Commented [E2]: Teitl: Hawliau Tramwy Cyhoeddus gerllaw

Dyddiad: 14 Tachwedd 2022

Awdur: Miriam Jones-Walter

Graddfa @ A4: 1:12,500

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Cwrs Dŵr Afonydd Agored AO

Camlas

Afon Fewndirol


Llyn

Afon Llanw

Newid Hinsawdd

Mae rhagamcanion ar gyfer newid hinsawdd yn dangos bod y safle'n debygol o ddod yn gynhesach a sychach yn y dyfodol. Disgrifir parth hinsoddol yr ardal hon o Gymru ar hyn o bryd fel 'cynnes a llaith'. Mewn senarios allyriadau uchel, bydd parth hinsoddol 'cynnes a sych' yn dod yn dra chyffredin yn llawer o iseldir Cymru. Mae hyn yn newid y mathau o lystyfiant sy'n debygol o gael eu cynnal yn yr ardaloedd hyn. Rhagwelir hefyd y bydd achosion o dywydd eithafol yn cynyddu.

Mae'r parth hinsoddol yn 'gynnes a llaith' (cynnes, cysgodol, llaith). Mae senarios allyriadau uchel ar gyfer newid hinsawdd yn dangos yr ardal hon yn newid i hinsawdd 'cynnes a sych.'



Commented [E3]: a) Hinsawdd sylfaenol (1961-1990)
b) Senario allyriadau isel 2050
c) Senario allyriadau uchel 2050
Tymheredd cronedig (dydd. graddau 5°C)

Commented [E4]: a) Hinsawdd sylfaenol (1961-1990)
b) Senario allyriadau isel 2050
c) Senario allyriadau uchel 2050
Diffyg lleithder (mm)

Commented [E5]: a) Hinsawdd sylfaenol (1961-1990)
b) Senario allyriadau isel 2080
c) Senario allyriadau uchel 2080
Tymheredd cronedig (dydd. graddau 5°C)

Commented [E6]: a) Hinsawdd sylfaenol (1961-1990)
b) Senario allyriadau isel 2080
c) Senario allyriadau uchel 2080
Diffyg lleithder (mm)

Canlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus

Ym mis Mehefin 2022 fe wnaethom ni gynnal ymgynghoriad i hysbysu'r cyhoedd am ein cynlluniau a rhoi cyfle i bobl godi pryderon, i ofyn cwestiynau a'u syniadau ar gyfer y safle. Gwnaethpwyd hyn drwy ymgynghoriad ar-lein ar Citizen Space a digwyddiad galw heibio yng Nghanolfan Esceifiog, Gaerwen. Fe wnaethom hefyd gysylltu'n uniongyrchol â chymdogion y safle a rhanddeiliaid allweddol lleol eraill, fel cynghorau cymuned, y cyngor sir, aelod o'r Senedd ac ASau. Hysbysebwyd yr ymgynghoriad trwy ddatganiad i'r wasg a sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Cawsom gyfanswm o 57 o ymatebion. Roedd y rhain yn gyfuniad o atebion ar-lein (drwy Citizen Space), yn ein digwyddiad galw heibio a thrwy e-bost a llythyrau. Cawsom 49 o ymatebion i'r arolwg a roddodd gyfle i roi sylwadau 'testun rhydd', roedd y gweddill yn sylwadau cyffredinol am y cynlluniau.

At ei gilydd, cyfeiriodd yr ymatebion at fioamrywiaeth fel y peth pwysicaf i'w ystyried wrth greu coetir yn gyffredinol ac yn benodol ar gyfer y safle hwn. Dilynwyd hynny gan 'bobl/mynediad' ac yna newid yn yr hinsawdd.

O ran mynediad, yr ymateb mwyaf o ran teithio i'r safle oedd 'car/motobeic' ond yn aml roedd hyn yn dod gyda sylwadau ynghylch hygrychedd a diogelwch presennol y mynediad i'r safle ar droed neu ddim mewn cerbyd. Os ydym am gyflawni ein hamcanion, bydd sefydlu mynediad diogel nad ydyw ar gyfer cerbydau yn flaenoriaeth glir.

Mae'n anodd categorïddio rhai o'r sylwadau a roddwyd. Fodd bynnag, mae dadansoddiad yn eu categorïddio i bedair thema allweddol. Yn gyntaf, cawsom lawer o gyfraniadau brwdfrydig a defnyddiol ar ddyluniad y coetir y gallwn eu cynnwys wrth i ni fynd ati i gynllunio'r manylion. Yn ail, cawsom nifer sylweddol o ymatebion a oedd yn cyfeirio at y datblygiad yng Nghoetir Penrhos, nad yw o fewn cwrpas y prosiect hwn, a byddwn yn eu trosglwyddo i'r awdurdod perthnasol.

Yn drydydd ac yn bedwerydd, cawsom sylwadau ynghylch parhau i gynhyrchu bwyd drwy ffermio'r tir, a'r defnydd cymunedol ac addysgol o'r safle.


Yn wahanol i ddefnydd cymunedol/addysgol, nid oedd bwyd/amaethyddiaeth yn rhan o'r amcanion ar gyfer y safle a oedd yn sail i'r ymgynghoriad a'r dyluniad gwreiddiol. Mae'r mater hwn wedi bod yn destun sylw yn y cyfryngau ac rydym yn deall y teimladau cryf sydd ynghlwm wrth hyn, felly teimlwn ei bod yn bwysig ystyried hyn ymhellach. Mae hyn felly wedi'i ystyried yn yr amcanion a'n dull o ddatblygu'r safle.

Amcanion


Mae'r amcanion hyn wedi'u llywio gan yr amcanion ehangach ar gyfer y rhaglen, amodau'r safle a'r adborth a gawsom gan randdeiliaid ar ein cynlluniau ar gyfer y safle.

- Gwella bioamrywiaeth trwy greu, adfer a chysylltu cynefinoedd.
- Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cyfleoedd cynaliadwy i dyfu bwyd, coed a natur.
- Cynyddu gwydnwch coetiroedd yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.
- Sefydlu man awyr agored diogel, cydnaws, hygyrch ar gyfer hamdden.
- Creu coetir sy'n cyd-fynd â chymeriad tirwedd Ynys Môn.

Cynllun Coetir: Nodweddion Allweddol a chyfyngiadau



Cynllun Coetir: Cyfleoedd



Egwyddorion Dylunio

Bydd y coetir yn cael ei blannu fel coetir cymysg gan ddefnyddio'r egwyddorion canlynol:

- Y nod cyffredinol fydd creu ardal aml-haen gyda Derw Coesynnog yn bennaf, gydag Oestrwydd yn y canol ac yn yr isdyfiant. Mân rywogaethau i gynnwys Oestrwydd, Ffawydd, Pisgwydd Dail Bychain, Aethnenni, Coed Criafol, Ceirios Du, Llwyfenni Llydanddail, Cyll Ffrengig, Cerddin Gwyllt.
- Llwyni i gynnwys toreth o rywogaethau cyll a pheillwyr fel afalau bach surion, gwifwrnwydd y gors, eirin hirion, rhosynnau gwyllt ac eraill.
- Sefydlu: plannu 20 – 30 o dderw coesynnog unigol mewn clystyrau (gyda bylchau o 0.3 – 1m rhwng coed) i annog safonau yn y dyfodol gyda gwerth pren uchel yn y dyfodol. Oestrwydd a mân rywogaethau eraill wedi'u plannu o amgylch clystyrau derw coesynnog. Mân rywogaethau ar ddwysedd is rhwng clystyrau.
- Y bwriad fydd sefydlu ymyl graddedig rhwng mannau agored a choetir, bydd rhodfeydd agored yn ymdoddi'n raddol i lwyni a chanopi'r coetir, gan ddefnyddio ymylon bylchog i greu afreoleidd-dra.
- Bydd rhywogaethau pinwydd cymysg (gan gynnwys Pinwydd yr Alban, Pinwydd Weymouth a Phinwydd Macedonia) yn cael eu plannu mewn grwpiau bach, afreolaidd, ar gyrion y coetir i ddarparu cynefin i wiwerod coch.
- Mannau agored i'w cynnal o amgylch yr holl nodweddion a nodir ar y map cyfyngiadau.

Cyfle i weithio mewn partneriaeth

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, rydym wedi penderfynu i ddechrau y byddwn yn plannu'r ardal a nodir uchod a gadael yr ardal sydd wedi'i nodi fel 'cyfle partneriaeth' ar agor.

Ar gyfer yr ardal hon byddwn yn creu cyfle i grwpiau neu unigolion gyflwyno syniadau, a fydd yn bodloni ein hamcanion ar gyfer y safle, yn enwedig 'Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cyfleoedd cynaliadwy i dyfu bwyd, coed, natur'.

Er enghraifft, gallai syniadau gynnwys coetir cymunedol, amaethyddiaeth gymunedol neu dyfu bwyd, tir pori coediog, perllannau neu unrhyw gyfuniad o syniadau tebyg.

Byddwn yn gweithio gyda chynigion llwyddiannus i gyd-ddylunio'r cyfleoedd a gynigir gan y bartneriaeth a chreu cytundeb â ni.